



Cylchlythyr Ysgol Parc y Bont

Tymor y Gwanwyn 2020



Gwersi Nofio Tymor y Gwanwyn (Bl.5a6)

Bydd gwersi nofio (sesiynau dwbl) i ddsbarth Bl.5a6 ym Mhlas Arthur ar y dyddiau Mawrth yma:

25/2/20; 10/3/20; 17/3/20; 24/3/20; 31/3/20

Dyddiadau ar y wefan hefyd. Sylwer fod sesiwn 3/3/20 wedi symud i 31/3/20. Gofynnwn yn garedig iawn am gyfraniad o £1.50 y plentyn i bob sesiwn, i'w dalu ar-lein mewn **un** taliad o £7.50 o.g.y.dd. Fe fyddwn yn rhoi credyd ar eich cyfrif Schoolcomms os fydd eich plentyn yn absennol yn ystod un o'r sesiynau.

Presenoldeb

Ein targed presenoldeb eleni yw **96%**

95.7% yw lefel presenoldeb hyd yma eleni.

Mae adroddiadau presenoldeb unigol yn cael eu hanfon adref wythnos yma.

Pan fo plentyn wedi bod yn sal â byg stumog / taflu i fyny – dylid eu cadw adref am 48 awr yn dilyn y tro diwethaf iddynt fod yn sâl.

Addysg Gorfforol

Am weddill y tymor yma, cynhelir gwersi addysg gorfforol ar y dyddiau yma:

Meithrin/Derbyn – Dydd Llun

Bl. 1 a 2 – Dydd Iau

Bl.3 a 4 – Dydd Llun

Bl. 5 a 6 – Dydd Mawrth



Sicrhewch fod gan eich plentyn siort, crys-T ac esgidiau ymarfer ar gyfer pob gwers. Mae sesiynau 'Dal i Fynd' sef rhedeg/loncian am 15 munud yn cael eu cynnal dair gwaith yr wythnos er mwyn hyrwyddo ffitrwydd a lles pob un disgybl.

Cyngor Ysgol

Diolch am eich ymatebion i holiadur y Cyngor Ysgol ar sut y gallwn wella yr ysgol. Cafodd pob plentyn a rhiant gyfle i gyfrannu syniadau. Byddwn yn eich hysbysu o flaenoriaethau'r Cyngor Ysgol a'r Pwllgorau Plant a fydd yn deillio o'r ymatebion. Yn ogystal â'r Cyngor Ysgol ceir 'Pwllgorau Plant' a fydd yn gweithio ar flaenoriaethau penodol:

'Ffrindiau Ffitrwydd a Lles'

'Sgwad Siarter Iaith'

'Grwp Gwyrdd ein Byd'

'Partneriaid y Pennaeth'

Wythnos Cymru Cwl

Mae'r Sgwad Siarter Iaith yn y broses o drefnu Wythnos Cymru Cwl 2/3/20 – 6/3/20. Ar ddydd Llun 2/3/20 byddwn yn dathlu Dydd Gwyl Dewi yma ym Mharc y Bont, ac rydym yn annog pob plentyn i wisgo cennin pedr a/neu ddillad sydd yn dathlu Cymreictod.



Codi Safonau Darllen / Cofnodion Darllen

Fel y gwyddoch, rydym yn rhoi cryn bwyslais ar godi safonau darllen ar draws yr ysgol. Rydym yn gofyn i bob rhiant ddarllen gyda'u plentyn / eu hannog i ddarllen am o leiaf 10 munud bob nos a chofnodi yn eu Cofnod Darllen o leiaf unwaith yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys pob plentyn hyd at flwyddyn 6.

Llythyrau / Gwybodaeth o'r ysgol

Cofiwch, os gwelwch yn dda, ei bod yn bwysig eich bod yn gwirio'ch cyfrif ebost / ffôn symudol yn gyson am lythyrau / gwybodaeth o'r ysgol ac yn gwneud nodyn o unrhyw ddigwyddiad / dyddiad newydd.

Dyddiadau / Calendr

Dyma ddigwyddiadau/dyddiadau tymor yma:

Dyddiad	Digwyddiad	Pwy?
13/2/20	Bl.6 – Ysgol David Hughes. Angen bocs bwyd. Cyfraniad o £5 plŷs.	Blwyddyn 6
14/2/20	HMS – Ysgol ar gau	
17 - 21/2/20	Gwyliau Hanner Tymor	
25/2/20	Nofio – Bl.5&6	Bl. 5a6
26/2/20	Bingo 6.30pm (CRhA)	
2 - 6/3/20	Wythnos Cymru Cwl – Rhagor o fanylion i ddilyn.	Pob disgybl
2/3/20	Dathlu Gwyl Ddewi – Disgyblion i wisgo cennin pedr a/neu ddillad i dathlu Cymreictod.	Pob disgybl
3/3/20	CA2: Gorymdaith Gwyl Ddewi y Dalgylch ym Miwmares. Rhagor o fanylion i ddilyn. Cyfraniad o £2 (ar-lein) tuag at y bws plŷs.	Bl. 3,4,5,6
4/3/20	'Te Cymreig' gyda pherfformiadau gan yr Adran Iau. 2pm Croeso i rieni a'r gymuned. Gwneir casgliad tuag at goffrau'r ysgol.	
7/3/20	Eisteddfod Cylch yr Urdd - Ysgol David Hughes	Côr yr ysgol ac unigolion
10/3/20	Nofio – Bl.5&6	Bl. 5a6
17/3/20	Nofio – Bl.5&6	Bl. 5a6
21/3/20	Eisteddfod yr Urdd - Sir – Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch	Côr yr ysgol ac unigolion
24/3/20	Nofio – Bl.5&6	Bl. 5a6
30/3/20	Nosweithiau Rhieni – Rhagor o fanylion maes o law.	
31/3/20		
31/3/20	Nofio – Bl.5&6	Bl. 5a6
2/4/20	P'nawn Pasg 3.15 – 4.30pm	
3/4/20	Bl1&2: Prosiect Ysgol Greadigol Arweiniol - Dangosiad / dathliad diwedd prosiect gyda rhieni	Bl.1a2 / rhieni
6 – 17/4/20	Gwyliau Pasg	

Cofiwch fod dydd Gwener yma (14/2/20) yn ddiwrnod HMS felly bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion. Bydd yr ysgol yn ail agor i ddisgyblion ar ôl y gwyliau ar ddydd Llun 24/2/20.

DIOLCH AM EICH CYDWEITHREDIAD PAROD

Iwan Wyn Taylor – Pennaeth – pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Ysgrifenyddes / Swyddog Cefnogi Ysgol: swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk / (01248) 422 350